



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai i weithio yn y diwydiant moduro.
- Sut i wneud gwasanaethau mecanyddol sylfaenol a gwaith cynnal a chadw wedi ei amserlennu, gweithio gyda dalen fetel, torri a weldio, sut i gadw ardal waith yn lân a thaclus a sut i weithio'n ddiogel yn y diwydiant moduro.
- Am faterion amgylcheddol, iechyd a diogelwch a'r gyfraith yn y gweithle.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen?

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo dillad amddiffynnol personol (esgidiau diogelwch ag oferôls) a fydd ar gael gan y Coleg.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu llyfr log a phortffolio sydd yn cael eu hasesu'n bennaf gan eich tiwtor cwrs.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?

Ar ôl Mlwyddyn 11, gallwch fynd ar gwrs Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Modur City and Guilds neu gwrs rhyddhad diwrnod Cynnal a Chadw Modur City and Guilds. Gallwch hefyd astudio ar y cwrs llawn amser lefel 2 Perfformio Gweithrediadau Peirianeg EAL yn y coleg. Wedi hyn i gyd, byddwch wedi eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau hyfforddiant pellach yn y diwydiant moduro. Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gyda pheirianeg fodur, medrech ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn y dymunwch ei ystyried nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Mecanic Car
- Mecanic Cerbyd Trwm
- Peiriannydd / Technegydd

Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol:

<http://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/engineering/mechanical/7682-performing-engineering-operations#tab=information&acc=level1>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com